

## “Dewch i’r parti”

*“Y mae teyrnas nefoedd,” meddai, “yn debyg i frenin a drefnodd wledd briodas i’w fab.” (adn. 2)*

### Beth am ddarlenn Mathew 22:1–14 ac yna myfyrio

Gwelsom ni ddoe sut y llanwyd Iesu â llawenydd pan ddychwelodd ei ddisgyblion o’u gwaith cenhadu. Dydy Iesu ddim yn fodlon dim ond mwynhau cymdeithas â’i Dad a bod yn rhan o lawenydd dwyfol y Drindod; mae e’n dyheu am i ninnau hefyd gael ein llenwi â’i lawenydd.

Yn y ddameg heddiw mae Iesu’n dweud bod teyrnas nefoedd fel gwledd briodas. Mae’r gwahoddiad wedi’i anfon: “Dewch i’r parti. Llawnhewch gyda’r Brenin am fod ei Fab wedi dod o hyd i briodferch annwyl.” Mae’r ddameg yn llawn eironi, wrth gwrs. Gwrthod y gwahoddiad wnaeth y rhai cyntaf. Roedd rhai yn mynnu eu bod yn rhy brysyr i lawenhau; roedd eraill fel petaent yn dirmygu’r rhai oedd yn ddigon ffôl (yn eu barn nhw) i ddathlu. Pwy sy’n meiddio dathlu pan fo bywyd mor llawn o anawsterau? Dim ond y rhai sy’n gweld â llygad ffydd. Y rhain yn unig sy’n gallu gweld y tu hwnt i’r tywyllwch presennol i weld, fel y dywedodd un pregethwr: “Yn y dechreuad yr oedd Llawenydd, ac roedd y Llawenydd yn Nuw, ac roedd y Llawenydd yn llifo oddi wrth Dduw.” O na baen ni’n gallu profi’r llawenydd sydd yng nghalon y Drindod, yna efallai y byddai ein hagwedd tuag at y bywyd Cristnogol yn hollol newydd.

Mae delwedd syfrdanol yn Seffaneaia. Mae’r proffwyd yn darlunio Duw fel rhyfelwr grymus sy’n gorfoleddu yn ei fuddugoliaeth dros bechod ac yn y pechaduriaid mae wedi’u hennill. Dyma y bydd Duw’n ei wneud, medd Seffaneaia: “... fe orfoledda’n llawen ynot ... llawenycha ynot â chân.” (Seff. 3:17) Mae’r sawl sydd wedi gweld Iesu wedi gweld y Tad, ac felly ni ddylen ni synnu wrth weld y darlun gorfoleddus yma o Dduw yn y cnawd ym mywyd ein Harglwydd.

### Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Salm 150:1–6; Can. Sol. 1:1–4; Eseaia 61:10–11; Actau 16:22–34

### Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Am beth a chyda beth mae’r salmydd yn moli Duw?
2. Beth oedd ymateb ceidwad y carchar i Air Duw?

### Gweddi

Fy Nhad a’ m Duw, sut galla i fyth ddiolch digon i ti fod y llawenydd sy’n nodweddu’r Drindod wedi ei roi, drwy’r hyn a wnaeth dy Fab drosof ar Galfari, yn fy nghalon innau hefyd? Bendigedig fo d’enw am byth. Amen.